Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

23 Ebrill 2018

Annwyl Gadeirydd

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Gaffael Cyhoeddus yng Nghymru

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 23 Mawrth a oedd yn gofyn am eglurhad ar nifer o faterion yn ymwneud ag adolygu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru.

Mae'n un o egwyddorion allweddol yr adolygiad mai barn ac adborth y rhanddeiliaid sy'n ei ysgogi. Mae'r grŵp rhanddeiliaid yn gyfrwng hanfodol felly i sicrhau bod llais pob un sydd â diddordeb yn cael ei glywed. Mae'n glir yn ôl cylch gorchwyl y grŵp rhanddeiliaid y bydd disgwyl i aelodau gael adborth gan gydweithwyr yn eu priod sectorau a sefydliadau, gan gynnwys y sefydliadau hynny nad ydynt o bosibl yn aelodau ar hyn o bryd. Cydnabyddir bod hyn yn ymrwymiad sylweddol ac mae tîm adolygiad Llywodraeth Cymru wedi dweud yn gwbl glir y bydd yn cynnig cymaint o gymorth ag sy'n bosibl i alluogi grwpiau rhanddeiliaid i ymgymryd â'u rolau. Mae CLlLC yn cydweithio â ni fel rhan o'r broses adolygu ac mae wedi rhannu manylion gwaith sy'n berthnasol i'r adolygiad, a wnaed ar draws y sector llywodraeth leol.

Mae mynd i'r afael â'r materion o allu a chapasiti caffael yn gyffredinol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn rhan sylfaenol o'r adolygiad, ac o'r hyn a ddaw yn ei sgil. Fel y trafodwyd yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r materion ym mhob cwr o Gymru a byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain drwy raglen gallu caffael newydd maes o law. Byddwn hefyd yn ailystyried cyfraddau gwariant fesul gweithiwr caffael proffesiynol gydol yr adolygiad, fel y nodwyd yn fy llythyr blaenorol ac yn penderfynu gyda rhanddeiliaid a ydy'n bosibl dod o hyd i fethodoleg ystyrlon i Gymru gyfan, gan gadw mewn cof bod gwahanol gyrff cyhoeddus yn mynd i'r afael â'r materion hyn mewn gwahanol ffyrdd.

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn / Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Bydd yr adolygiad sy'n parhau hefyd yn ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw aelodau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn dewis defnyddio trefniadau lleol neu gonsortia prynu cyhoeddus yn hytrach na fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ei hun.

Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi gofyn i'w gwsmeriaid am eu sylwadau ar ba mor effeithiol yw ei fframweithiau ac mae wedi gweithio gyda bwrdd y Gwasanaeth i hyrwyddo manteision defnyddio fframweithiau'r Gwasanaeth i brynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin, ailadroddus, ac i annog aelodau i'w defnyddio. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi rhoi cipolwg allweddol ar y sefyllfa ac wedi dylanwadu ar lawer o ddatblygiadau cadarnhaol eisoes. Er enghraifft, mae dulliau rhanbarthol yn cael eu hystyried gyda'i aelodau yn awr, sydd wedi arwain, yn eu tro, at brosiectau peilot lle mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi cefnogi saith Awdurdod Lleol yn y De-orllewin i gyflawni eu gofynion o ran gwasanaethau ymgynghori ym maes peirianneg.

Fel y nodwyd gennych, bu materion tebyg mewn perthynas ag annog y defnydd o offer eGaffael. Mae llawer o waith yn cael ei wneud ar y cyd o dan arweiniad tîm categori TGCh y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer darpariaeth y dyfodol. Mae llawer o ddiddordeb yn y pwnc hwn ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar wahân i'r adolygiad, ond mae llawer o gysylltiadau ffurfiol yn rhan annatod ohono er mwyn sicrhau'r lefel uchaf bosibl o gydweithrediad â'r adolygiad.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi am ganlyniadau'r adolygiad wedi iddo gael ei gwblhau ac yn rhoi diweddariad hefyd ar y camau gweithredu a fydd yn deillio o ddau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn gywir

ANDREW SLADE
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol